

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-685-22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

23 Mawrth 2022

Annwyl Peredur,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth am rai materion a godwyd yn ystod y sesiwn graffu ar 2 Mawrth ar yr ail gyllideb atodol.

Crynodeb o newidiadau i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-222 sydd wedi'u cynnwys yn Amcangyfrifon Atodol y DU

O'r £1.1bn o adnoddau ychwanegol a nodir yn y gyllideb atodol, mae £686m yn codi o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnett a gadarnhawyd yn Amcangyfrif Atodol y DU:

- £629m o refeniw cyllidol;
- £18m o refeniw anghyllidol;
- £57m o gyfalaf cyffredinol; a
- gostyngiad o £18m o gyfalaf trafodiadau ariannol.

Yn ogystal, cawsom

- £77m o ychwanegiadau heb fod yn Barnett;
- £142m (net) o drosglwyddiadau ag adrannau eraill o'r Llywodraeth;
- £283m mewn perthynas â rhaglenni a ariennir drwy Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME);
- Gostyngiad o £46k o ganlyniad i ailgyfrifo'r addasiad i'r grant bloc;
- Tynnu i lawr cyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £50m o Gronfa Wrth Gefn Cymru
- Gostyngiad o £149k o ganlyniad i addasiad i wariant cyfalaf 2021-21.

Cyllid i ofalwyr di-dâl

Heddiw, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd taliad o £500 ar gael i dros 57,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n cael Lwfans Gofalwr. Mae'r taliad yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cydnabod y pwysau ariannol ac emosiynol y mae llawer o ofalwyr di-dâl wedi'u profi yn ystod y pandemig ac yn targedu unigolion sy'n gofalu am dros 35 awr yr wythnos ac sydd ag incwm isel.

Bydd unrhyw un sy'n cael Lwfans Gofalwr ar 31 Mawrth 2022 yn gallu cofrestru gyda'u hawdurdod lleol a hawlio'r taliad. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynghylch pryd a sut i gofrestru erbyn diwedd mis Ebrill.

2021-22

I gydnabod y pwysau cynyddol a achoswyd gan y pandemig, rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol o £10m i gefnogi gofalwyr di-dâl o bob oedran, yn 2021-22. Roedd y cyllid hwn yn cynnwys:

- £1.25m i ymestyn y Gronfa Gymorth i Ofalwyr i'r flwyddyn ariannol hon;
- £5.5m o'r £40m o gyllid gofal cymdeithasol ychwanegol ar gyfer Cynllun y Gaeaf i'r awdurdodau lleol i ddarparu ystod o gymorth i ofalwyr di-dâl;
- £3m i'r awdurdodau lleol i gynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr gymryd seibiant oddi wrth eu rôl fel gofalwyr.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn ffynhonnell arall o gymorth i ofalwyr di-dâl. Yn 2020-21 buddsoddwyd £89m o gyllid refeniw yn y Gronfa, a chan gydnabod manteision cadarnhaol y Gronfa a chan adeiladu ar lwyddiant hyd yn hyn, buddsoddwyd swm pellach o £89m o gyllid refeniw yn 2021-22.

2022-23

Yn 2022-23 byddwn yn darparu cyllid i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun seibiant byr ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Mae ein Cynllun Grant llwyddiannus i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy wedi'i ymestyn am ddwy flynedd hyd at 2025.

O 2020-2023 rydym wedi dyrannu £2.6m i Ofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru o dan y rhaglen hon. Rydym yn darparu cyllid o £1m i fyrddau iechyd lleol i barhau â'u gwaith i gefnogi gofalwyr sy'n cael pethau yn anodd oherwydd pwysau cynyddol y pandemig.

Cyllid i hosbisau

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae hosbisau'n ei wneud i ofal diwedd oes a'r cymorth y maent yn ei ddarparu i gleifion, teuluoedd a gofalwyr, gan gynnwys darparu gofal seibiant y mae ei angen yn fawr. Dyna pam yr ydym wedi dyrannu £13.8m o gyllid brys i gefnogi hosbisau drwy gydol y pandemig. Mae'r cyllid hwn wedi'i defnyddio i ddiogelu gwasanaethau clinigol craidd a chryfhau cymorth profedig aeth ar gyfer hosbisau.

Rydym hefyd wedi cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adolygu cyllid hosbisau ac yn darparu swm ychwanegol o £2.2m y flwyddyn i hosbisau oedolion a phlant o 2022-23. Dyma gam cyntaf adolygiad ehangach o gyllid gofal lliniarol a gofal diwedd oes ledled Cymru.

Mae hosbisau yn sefydliadau annibynnol ac felly maent yn cael incwm o nifer o wahanol ffynonellau elusennol a statudol. Mater i hosbisau unigol yw penderfynu pa godiadau cyflog y maent yn eu darparu i'w staff yn seiliedig ar gyfanswm yr incwm y maent yn ei gael. Er

hynny, lle mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar waith gyda byrddau iechyd, byddem yn disgwyl iddynt ystyried effaith unrhyw godiad cyflog i staff y GIG ar eu hosbisau lleol.

Cymorth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Mae dros £35 miliwn yn cael ei ddyrannu fel cymorth uniongyrchol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022-2023. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys:

- ein buddsoddiad arloesol mewn dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ysgolion – a'n hymrwymiad i'r Hawl Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol;
- cymorth cenedlaethol uniongyrchol parhaus i ysgolion ar gyfer eu gwaith ar y cwricwlwm;
- cymorth haen ganol - gan gynnwys cefnogi rhwydweithiau lleol, Rhaglen Ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru etc;
- cymorth cenedlaethol uniongyrchol ar gyfer datblygu dilyniant ac asesu yn y cwricwlwm – gan gynnwys y prosiectau “Camau”;
- cymorth i ymgysylltiad ysgolion â'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, a sut mae'r rhwydwaith yn gweithredu;
- Costau ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau newydd sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm newydd;
- cymorth ar gyfer gweithredu cwricwlwm lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir;
- adnoddau a deunyddiau ategol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd;
- gwaith marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys gwybodaeth newydd i rieni;
- cyllid parhaus ar gyfer y rhaglen Ymchwil, Gwerthuso a Monitro.

Ar gyfer ysgolion, mae ein cynlluniau cyllideb yn golygu y byddant yn cael £21.6m, £21.3m a £18.4m yn uniongyrchol dros y 3 blynedd nesaf i gefnogi eu gwaith ar y cwricwlwm newydd a dysgu proffesiynol cysylltiedig.

O ran sut rydym yn gwybod ble i dargedu adnoddau – fel y nodwyd gennym yng Nghynllun Gweithredu'r Cwricwlwm ym mis Ionawr 2021 – mae ein Rhaglen Gwerthuso a Monitro hydredol eisoes yn rhoi cipolwg allweddol ar y broses o weithredu'r cwricwlwm. Cyhoeddwyd adroddiadau cynnar ar barodrwydd ysgolion ym mis Medi a 31 Ionawr – a disgwylir y rhai nesaf yn y gwanwyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi gwaith cwmpasu'r rhaglen y gwanwyn hwn, fel y gallwn fapio'r gwaith o fonitro gweithrediad y broses a, maes o law, asesu effaith y diwygiadau allweddol hyn dros amser.

Yn gysylltiedig â'r rhaglen Gwerthuso a Monitro, mae Estyn yn parhau i gyhoeddi eu diweddariadau rheolaidd ar effaith y pandemig a'r cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud o ran diwygio'r cwricwlwm. Edrychodd yr un diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 10 Chwefror, ar allbynnau eu gwaith ymgysylltu yn yr hydref. Caf ar ddeall eu bod yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau pellach ar weithredu'r cwricwlwm yn ddiweddarach ym mis Mawrth.

Cymorth cyfalaf ar gyfer gweithredu Prydau Ysgol am Ddim

Ym mis Chwefror, cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar ddyraniad o hyd at £25m o gyllid cyfalaf i'w ddosbarthu i'r awdurdodau lleol yn 2021-22, fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, i brynu offer ac uwchraddio'r cyfleusterau presennol i gefnogi'r gwaith o ymestyn yr hawl i gael prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd.

Dileu gorwariant lechyd yn Lloegr

Pan fo dyled sy'n cael ei dileu i bob pwrpas yn drafodiad o fewn grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), ni fydd yn creu cost benthyca ychwanegol na chost gyllidol i'r Trysorlys ac nid yw'n effeithio ar gyllideb gyffredinol DHSC, ac nid yw'n arwain at symiau canlyniadol fformiwla Barnett ychwanegol i'r llywodraethau datganoledig.

Bydd cyllideb gyffredinol y DHSC mewn unrhyw flwyddyn yn gallu darparu ar gyfer gorwariant gan ymddiriedolaethau GIG unigol yn Lloegr o'i gymharu â'u dyraniadau.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n ymddangos bod rhai ymddiriedolaethau wedi cronni dyledion gyda DHSC dros nifer o flynyddoedd i lenwi bylchau yn eu cyllidebau. Mae dileu'r dyledion hynny'n golygu, wrth gwrs, na fydd DHSC yn gallu ystyried ad-daliadau dyledion yn y dyfodol oddi wrth yr ymddiriedolaethau hynny yn ei chynlluniau ar gyfer dyrannu cyllid ledled Lloegr. Er hynny, nid oes unrhyw effaith ariannol ar ei chyllideb gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y dyraniad adnoddau gan Lywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod fformiwla Barnett a'r fframwaith cyllidol ehangach yn cael eu gweithredu'n briodol a bod Cymru'n cael ei chyfran gywir o gyllid.

Gwerthuso Cymorth i Fusnesau

Cyhoeddwyd gwerthusiad cam cyntaf Dirnad Economi Cymru (EIW) [Ymyriadau ariannol Llywodraeth Cymru Covid-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru](#) ym mis Rhagfyr 2020. Roedd yr ymyriadau yr ymchwiliwyd iddynt yn cynnwys grantiau busnes cam 1 a 2 y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, Cynllun Benthyciadau Busnes Cymru Covid-19 a reolir gan Fanc Datblygu Cymru a grantiau cysylltiedig Ardrethi Annomestig a weinyddir gan yr awdurdodau lleol.

Dyma ganfyddiadau cychwynnol yr adroddiad:

- Mae dau Gam cyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd wedi darparu mwy na £200m o grantiau i gefnogi busnesau yng Nghymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y cymorth a delir drwy'r grant Ardrethi Annomestig, sy'n werth £770m, a dalwyd i 64,000 o fusnesau.
- At ei gilydd, mae grantiau busnes y Gronfa Cadernid Economaidd wedi darparu cymorth uniongyrchol i bron 12,000 o gwmnïau/sefydliadau yng Nghymru a 125,000 o swyddi (amser llawn a rhan-amser), sef tua 10.5% o gyfanswm y rhai a gyflogir yng Nghymru.
- Y cyllid cyfartalog a ddyfarnwyd i bob cais llwyddiannus gan BBaCh oedd tua £15,620. Ar gyfartaledd, roedd y swm a gymeradwywyd ar gyfer BBaCh ychydig dros 77% o werth y cyllid y gwnaed cais amdano gan gwmnïau yng Nghymru.
- Roedd bron 80% o'r cwmnïau a dderbyniodd y cyllid yn fusnesau micro, a derbyniodd y cwmnïau hyn grant cyfartalog o bron £10,000. Cwmnïau bach oedd 18% o'r cwmnïau a gefnogwyd, gyda chyllid cyfartalog o bron £31,000 fesul cwmni. Busnesau canolig oedd bron 3% o'r cwmnïau a gafodd gyllid, gyda grant cyfartalog o bron £74,000. Cafodd cwmnïau mawr grant cyfartalog o ryw £302,000.
- Gallai effeithiau ehangach y cymorth fod yn sylweddol, gyda miloedd lawer o swyddi pellach yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol mewn busnesau cysylltiedig drwy effeithiau ar hyd y gadwyn gyflenwi ac effaith gwario cyflogau.

Mae dau gam pellach gwaith Dirnad Economi Cymru a oedd yn cynnwys elfen arolwg a gwerthusiad dilynol o'r effaith a'r casgliad bellach wedi'u cwblhau a chyhoeddir adroddiad ar hyn ar ddiwedd mis Mawrth.

Tâl y sector cyhoeddus

Rydym wedi ymrwmo i wneud Cymru'n wlad o waith teg, ac yn parhau i weithio'n adeiladol mewn partneriaeth gymdeithasol deirochrog rhwng y Llywodraeth, ein cydweithwyr yn yr undebau llafur, a phartneriaid cyflawni perthnasol i droi'r ymrwymiad hwnnw'n realiti ymarferol.

Rydym yn cydnabod, yng nghyd-destun ehangach chwyddiant, fod hwn yn ddarlun sy'n esblygu gyda chynnydd ym miliau aelwydydd, codiadau Yswiriant Gwladol ac effeithiau cysylltiedig i gadwyni cyflenwi a chostau nwyddau a fydd yn dechrau cael effaith o fis Ebrill ymlaen. Ochr yn ochr â hyn bydd effeithiau i'w teimlo o ganlyniad i'r ymosodiad ar Wcráin.


Mae'n bwysig cydnabod na fydd unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth y DU i godi cyfyngiadau ar gyflogau'r sector cyhoeddus yn lliniaru'r baich ar weithwyr yn y sector cyhoeddus sydd wedi wynebu sawl her yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac sydd wedi gweithio'n eithriadol o galed i gadw gwasanaethau hanfodol i fynd, ond yn gweithio os caiff ei ariannu'n llawn.

Ni ddarparwyd unrhyw fanylion yn yr adolygiad o wariant ynghylch graddfa neu gwantwm y codiadau cyflog hyn. Rydym yn dal i bryderu y byddant yn sylweddol is na chwyddiant, sydd yn doriad mewn termau real o gofio'r lefelau uchel presennol, neu y disgwylir iddynt ddod o gyllidebau presennol, gan leihau cyllidebau Llywodraeth Cymru. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i weithredu ar 23 Mawrth.

Rydym wedi ymrwmo i archwilio gyda llywodraeth leol a'r undebau llafur yng Nghymru sut i wneud cynnydd ar ein hymrwymiad hirsefydlog i wella tegwch mewn trefniadau cyflog, a hynny yn wyneb setliad ariannol heriol, yn enwedig i fynd i'r afael ag effaith COVID ar ein GIG a'n hagenda gymdeithasol flaengar.

Gwnaethom ymrwmo hefyd i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog ar draws gwahanol gyff cyhoeddus. Rwyf eisoes wedi cychwyn ymarfer i sicrhau cydraddoldeb cyflogau ar draws graddau cymharol debyg mewn gwahanol gyff cyhoeddus, sydd wedi cynnwys o fewn ei gwmpas Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyhoeddus, y GIG, yr Awdurdodau Lleol a chwmnïau Llywodraeth Cymru megis Trafnidiaeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd. Er hynny, bydd angen dod o hyd i unrhyw gyllid o fewn setliadau sy'n bodoli eisoes.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government fe:gpfalwyr